Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc

**ADRAN:** Ysgol Gynradd Oldcastle

**SWYDD:** Cydlynydd Gweithgareddau Plant

**GRADD Y SWYDD:** GR02

**YN ATEBOL I'R:** Pennaeth

---

**DIBEN Y SWYDD:**

Cydlynu gweithrediad rhaglenni o weithgareddau plant wrth wneud y defnydd gorau o staff ac adnoddau eraill i ddarparu chwarae o ansawdd uchel, gweithgareddau hamdden a chreadigol i blant a phobl ifanc.

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Sicrhau bod lleoliadau a'r rhaglenni gweithgareddau yn ddiogel ac yn briodol, a chydymffurfio â deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.
- Bod yn gymwys wrth gyflwyno gweithgareddau, gyda dealltwriaeth glir o weithdrefnau gweithredol a'ch cyfrifoldebau personol.
- Cynllunio a gweithredu rhaglenni o weithgareddau sy'n ddiogel ond yn ddiddorol ar gyfer amrywiaeth o blant a phobl ifanc.
- Sicrhau bod prosiectau a rhaglenni gweithgareddau yn cael eu monitro o ran data sy'n ofynnol i fesur perfformiad (h.y. presenoldeb, costau ac ati).
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu sy'n gwella cymhwysedd gyda gweithgareddau chwarae, hamdden a chreadigol neu sgiliau cydlynu a goruchwylio cyffredinol.

**DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

**Iechyd a Diogelwch**
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir ym Mholisi Iechyd a Diogelwch yr ysgol

**Cyfle Cyfartal**
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

**Diogelu**
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

**Adolygiad a Hawl i Amrywio**
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n

rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

**Gwiriad Cofnodion Troseddol**
Dylai ymgeiswyr nodi y bydd yn angenrheidiol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael gwiriad cofnodion troseddol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

# Manyleb y Person

## Cydgysylltydd Gweithgareddau Plant

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | ● Sgiliau rhifedd a llythrennedd da.<br>● Cymorth cyntaf sylfaenol.<br>● Gwybodaeth am Hyfforddiant Amddiffyn Plant. | Ydy | Cyflwyno Tystysgrifau Cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | ● Profiad o oruchwylio plant (3 i 11 oed) o fewn a/neu y tu allan i leoliad strwythuredig.<br>● Profiad o weithio ym maes chwaraeon a hamdden, y celfyddydau a gweithgareddau creadigol gyda phlant.<br>● Profiad/gwybodaeth am bwysigrwydd gweithgareddau i blant. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | ● Gallu darparu gweithgareddau a gemau.<br>● Gallu gweithio fel rhan o dîm.<br>● Gallu cyfathrebu'n glir ac yn effeithiol â chydweithwyr, plant a rhieni/gofalwyr.<br>● Mae'r gallu i gyfarch cwsmeriaid drwy gyfrwng y Gymraeg yn un o'r gofynion ar gyfer y swydd hon. | Ydy<br><br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |